



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 15 Gorffennaf 2022

Yn bresennol:

Dr Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Dr Debbie Nash (DN)
Yusuf Ibrahim (YI)
John Graystone (JG) – trwy gyswllt Teams
Katie Phillips (KP) – trwy gyswllt Teams
Sarah Coombes (SC) (Cysylltiol)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Gair o groeso, cadarnhau'r cofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y sesiwn a chroesawu pawb i'r cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Paul Marshall a Kirsty Payne. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau.

Soniodd SD am yr hyfforddiant rhagorol yr oedd hi ac MP wedi'i dderbyn yn ddiweddar ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a oedd yn ymdrin â materion fel nodweddion gwarchoddedig a rhagfarn ddiarwybod. Atgoffodd SD aelodau'r Bwrdd bod arfarniadau i fod i ddigwydd ym mis Medi/Hydref - gofynnir i KP drefnu.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau bellach. Atgoffodd TE y cyfarwyddwyr i nodi pa feysydd ffrwd gwaith y byddai'n well ganddyn nhw eu harwain er mwyn dyrannu cyfrifoldebau.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Rhoddodd MP adroddiad cryno ar y cyfarfod pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol diwethaf a gynhaliwyd ym mis Mehefin.

Mae staff wedi eu penodi i'r swydd Marchnata Digidol (Geraint Roberts) a'r Pennaeth Mewnwelediad (Nia Miles). Roedd swydd Pennaeth Datblygu Arweinyddiaeth wedi cael ei hail-hysbysebu. *Mae TE wedi diweddarau'r Bwrdd erbyn hyn fod Mr Richard Edwards wedi'i benodi i lenwi'r swydd wag hon.* Bydd y tri secondai yn dychwelyd i'w swyddi parhaol ar 31 Awst. Mae JG wedi cyfarfod â'r holl staff fel y cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer llesiant.

Cyfeiriodd MP at yr adroddiadau monitro gwleidyddol y mae bellach wedi bod yn eu derbyn. Cytunodd MP i dynnu sylw at unrhyw beth sy'n berthnasol i'r Bwrdd.

Bu digwyddiadau wyneb yn wyneb fel Eisteddfod yr Urdd yn llwyddiannus iawn yn codi proffil y sefydliad a meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid. Bydd TE yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron cyn bo hir. Bydd y peiriant chwilio ar y wefan yn cael ei wella dros yr haf.

Cafodd y pwyllgor olwg fanwl ar y gyllideb a gafodd ei diwygio fymryn ac sydd wedi'i mantoli fel ei bod o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru. Doedd dim byd i holi amdano ar dri mis cynta'r cyfrifon rheoli.

Mae Cyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer 2021/22 wedi'u dosbarthu. Roedd angen gwneud mân ddiwygiadau i'r testun a diweddarau enwau'r cyfarwyddwyr. Roedd KP wedi gweithio'n agos gyda'r cyfrifwyr ar hyn felly roedd yn weddol hyderus gyda'r drafft. Unwaith y bydd y diwygiadau wedi'u gwneud bydd y cyfrifon drafft yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru er mwyn dechrau ar yr archwiliad allanol.

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y pwyllgor a diolchodd SD i MP am adroddiad manwl a chynhwysfawr.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Roedd yr archwilwyr allanol wedi derbyn cynllun archwilio drafft. Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn hyn ac yn cytuno ar y ffioedd archwilio. Roedd y rheolwr archwilio newydd wedi mynychu'r pwyllgor ar gyfer cyfarfod rhagarweiniol.

Codwyd materion cyfathrebu, o ran y gofrestr risg a'r archwiliad dwfn. Trafodwyd y gwahaniaeth rhwng meithrin ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth. Barnwyd bod y sefydliad yn effeithiol iawn o safbwynt y mater cyntaf drwy'r sianeli cyfathrebu presennol, ond bod angen gwneud mwy o waith ar yr ail trwy waith cysylltiadau cyhoeddus effeithiol.

Cyfeiriodd MJ at gyflwyniad gwych Dr Chris Lewis (CL) ar ei waith polisi ar lesiant sy'n rhan o gylich gwaith y sefydliad erbyn hyn. Roedd CL wedi rhoi diffiniad clir iawn o lesiant, gan wahaniaethu rhwng llesiant proffesiynol a materion iechyd meddwl.

Pwysleisiodd bwysigrwydd creu amgylchedd lle gall pobl ffynnu yn eu bywyd proffesiynol.

Cyfeiriodd MJ at waith CL yma fel esiampl gan ei fod wedi cyfrannu at newid polisi Llywodraeth Cymru ar lesiant. Roedd hyn yn llawer mwy na chodi ymwybyddiaeth yn unig, fel y cyfeirir ato uchod, ond wedi symud heb os i faes dwyn perswâd.

Roedd MJ yn credu y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd weld bod y gallu hwn gan y sefydliad felly bydd SD yn gwahodd CL i rannu'r cyflwyniad mewn cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol.

Cytunodd MP ynghylch pwysigrwydd cynyddu gwaith cysylltiadau cyhoeddus er mwyn gwella hygyrdd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Awgrymodd sesiynau briffio gyda'r wasg, cyfweiliadau a blogiau. Cytunodd TE i ystyried hyn.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion cyfarfod y pwyllgor a diolchodd SD i MJ am adroddiad addysgiadol sy'n procio'r meddwl.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dechreuodd TE drwy ddweud bod cynllun adroddiad y Bwrdd wedi'i adnewyddu i gyd-fynd â'r cynllun corfforaethol diwygiedig. Yna, amlinellodd TE yr uchafbwyntiau a'r cynnydd yn erbyn pob rhaglen waith yn ei thro:

Paragraff 1.1 Sicrhau Ansawdd - Mae cymeradwyaethau wedi'u cwblhau ar gyfer cylch olaf y ddwy raglen ganlynol: Hyfforddi a Datblygu Cenedlaethol gan y Consortia Traws-ranbarthol a'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a ddaeth i rym drwy'r Llwybr Arloesi. Mae'r alwad nesaf yn fyw yn awr a bydd yn cau ddiwedd mis Hydref. Roedd galwadau blaenorol yn 'alwadau agored' ond y bwriad nawr yw symud tuag at alwadau wedi'u targedu ar feysydd sy'n gysylltiedig â'r cylch gwaith fel ADY, y cwricwlwm newydd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, llywodraethwyr ac ati.

Mae 13 darpariaeth wedi'u cymeradwyo yn y prospectws hyd yma. Dywedodd TE fod pobl eisiau dogfennau copi caled i fynd gyda nhw mewn digwyddiadau, felly byddwn yn cadw hynny mewn cof ar gyfer ymweliadau'r dyfodol.

Paragraff 1.2 Arloesi - Derbyniwyd adroddiad terfynol gan y sector gwaith ieuentid yn dilyn eu grant arloesi i ddatblygu rhaglen. Y gobaihw yw y byddan nhw'n cyflwyno'r ddarpariaeth honno i'w chymeradwyo. Mae cais cryfach ar gyfer cyllid Llwybr Arloesi wedi dod i law gan Chrysalis - mae hyn yn cynnwys modiwl cyflawn ar arweinyddiaeth erbyn hyn.

Paragraff 1.3 Arweinyddiaeth System – Mae proses recriwtio Carfan 5 wedi'i chwblhau ac mae'n cynnwys cymysgedd cytbwys o bob sector addysgol. Bydd cwrs sefydlu preswyl deuddydd ar gyfer y garfan newydd hon. Cynhaliwyd digwyddiad yn Llandrindod ym mis Mehefin i gael pob Cydymaith at ei gilydd. Soniodd TE am yr egni a'r brwdfrydedd a gynhyrchwyd yn y digwyddiad hwnnw a'r trafodaethau â ffocws da iawn a ddigwyddodd.

Bydd Mark Isherwood yn cynnal sgysiau proffesiynol gyda'r holl Gymdeithion. Bydd y rhain yn canolbwyntio nid yn unig ar sut maen nhw wedi elwa'n bersonol ar y profiad ond hefyd pa effaith maen nhw wedi'i chael ar sefydliadau eraill wrth symud ymlaen.

Paragraff 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth – siaradodd TE am sut mae pob ffrwd waith yn cyffwrdd ac yn gorgyffwrdd â'r lleill i gyfrannu at weledigaeth gydgysylltiedig. Mewn digwyddiad diweddar gyda Dr Ali Davies, roedd penaethiaid ysgolion i gyd yn teimlo bod llesiant yn flaenoriaeth iddyn nhw. Cyfeiriodd TE hefyd at bapur yr Athro Andy Penaluna 'Are we playing not to lose when we should be playing to win?'. Bydd y tîm yn ystyried sut i fwrw'r gwaith hwn ymlaen. Roedd digwyddiad partneriaeth IPDA 'Shining a Light' yn llwyddiannus a bydd y cyfranwyr yn cael eu gwahodd i gyfrannu at y Blether nesaf.

Paragraff 2.1 Adnoddau – aeth TE i gynhadledd BELMAS yn Lerpwl yn ddiweddar lle bu'n cyd-gyflwyno papur gyda'r Athro Ken Jones ar Arwain Dysgu Proffesiynol. Roedd yn canolbwyntio ar yr 8 nodwedd sydd wedi'u gwreiddio mewn darpariaeth wedi'i chymeradwyo, ac yn ystyried sut mae'r nodweddion hyn yn cyd-fynd â Hawl Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru. Mae'r nodweddion hyn yn rhan annatod o bob dysgu proffesiynol yn enwedig yn y cwricwlwm newydd.

Paragraff 2.2 Cyfres Mewnwelediad – mae'r Athro Carol Campbell wedi'i chomisiynu i gynhyrchu cyfres mewnwelediad newydd ar ymarfer myfyriol. Bydd y gwaith yn cael ei wneud dros gyfnod yr hydref gyda'r nod o gynnal digwyddiad lansio yn y gwanwyn. Wedi hynny, mae gweithgorau a grwpiau ymgynghorol yn cael y dasg o dyrchu drwy'r holl bapurau hyn er mwyn helpu i gynhyrchu gweithgaredd ar sail y syniadau.

2.3 Llesiant – rhoddodd TE gydgylwyniad ar lesiant i arweinwyr yng nghynhadledd Belmas gyda Gavin Gibbs, Cydymaith o garfan 4. Roedd y gynhadledd yn cynnig cyfleoedd da iawn i rwydweithio a meithrin cysylltiadau.

2.4 Cynllunio'r Gweithlu Strategol – mae dau brosiect yn barod i'w lanlwytho ar y safle erbyn hyn – ymchwil i gyn-Benaethiaid, a gomisiynwyd gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, a hefyd y gwaith gyda 6 awdurdod lleol ar ymchwil data ansoddol sy'n ystyried pam rydyn ni'n wynebu argyfwng recriwtio ar gyfer arweinwyr ysgolion yng Nghymru, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Cafwyd trafodaeth am ysgolion is-raddfa a'r problemau penodol a wynebier yno gan arweinwyr ysgolion. Gobeithio y bydd y gwaith ymchwil hwn yn helpu i dynnu sylw at y materion hyn.

Mae ymchwil PCET ar y gweill hefyd ac ar ben ffordd i'w gwblhau erbyn tymor yr hydref.

3.1 Corfforaethol – mae proses adnewyddu'r Bwrdd wedi'i chwblhau a'r holl waith papur wedi'i gwblhau ar gyfer 3 aelod newydd y Bwrdd. Mae rhaglen hyfforddi ar y gweill i gynnwys cyfarwyddwyr presennol yn ogystal ag aelodau newydd o'r Bwrdd.

Mae fformat y cynllun Gweithredol ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi newid – taenlen Excel sy'n ddogfen waith y gellir ei diweddarau'n hawdd.

3.2 Swyddogaeth Weithredol - mae staff newydd wedi'u penodi fel yr amlinellir ym Mharagraff 2 uchod. Mae hysbyseb ar gyfer Swyddog Cymorth Busnes newydd gau a byddwn yn ystyried a ddylem gyfweld yr un ymgeisydd addas.

Mae secondai wedi'i benodi'n rhan-amser i arwain y prosiect addysgeg.

3.3 Cyfathrebu a Marchnata – mae mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb sy'n profi'n werthfawr iawn wrth gyfarfod â rhanddeiliaid a chynyddu cysylltiadau. Bydd Geraint Roberts yn cynllunio strategaeth ymgysylltu ar gyfer TE i deithio o amgylch Cymru, gan ddechrau gydag Ysgolion Cyswllt. Yna, bydd TE yn creu nodyn briffio ar gyfer Cynghorwyr Arbennig felly rhaid sicrhau bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r rhaglen arfaethedig. Awgrymodd MJ ein bod yn trefnu cyfleoedd cyfryngau lleol i gyd-fynd ag ymweliadau o'r fath ac yna sganio'r cyfryngau cymdeithasol wedi'r digwyddiadau i fesur yr effaith. Hefyd, awgrymodd MJ a DN ein bod yn creu bagiau arddangos mawr llachar a nwyddau rhad ac am ddim er mwyn rhoi'r cyhoeddusrwydd mwyaf i'r sefydliad.

3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – roedd gan gyfarfod y grŵp rhanddeiliaid fis diwethaf bresenoldeb cymharol wael felly rydym yn ystyried cynyddu'r nifer yn y grŵp rhyw fymryn. Mae dyddiad wedi'i bennu ar gyfer fforwm rhanddeiliaid mawr ym mis Tachwedd.

Mae dau gyfarfod o'r Bartneriaeth Traws-ranbarthol wedi'u cynnal a chynllun gweithredu wedi'i gytuno. Gallai hyn gael ei ddefnyddio fel peilot ar gyfer cymeradwyo cyflym. Mae bwriad hefyd i edrych ar wella dulliau cyfathrebu gyda'r traws-ranbarthau, a gaiff eu gwahodd i gyd-drefnu'r gynhadledd i Reolwyr Canol fis Mawrth nesaf.

Diolchodd TE i'r tîm am y cynnydd trawiadol a wnaed ar draws yr holl ffrydiau gwaith. Ymhlith digwyddiadau tymor yr hydref mae 'Datgloi'r Cwricwlwm' gyda thri siaradwr proffil uchel ar y gweill gan gynnwys yr Athro Graham Donaldson, yr Athro Ken Muir a gynhaliodd adolygiad yr Alban ar y Cwricwlwm Rhagoriaeth, a'r Athro Priestly a fydd yn trafod cynllunio'r cwricwlwm a chynnydd.

Cyfeiriodd MP at y bartneriaeth gyda'r consortia gan dynnu sylw at y pecyn cymorth hunanwerthuso newydd i lywodraethwyr ysgol a gynlluniwyd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr agwedd arweinyddiaeth. Cadarnhaodd TE fod cais wedi'i dderbyn yn ddiweddar i ariannu Llywodraethwyr PL o ranbarth CSC. Mae TE yn cael cyfarfod gydag Estyn fis nesaf i drafod yr adolygiad thematig a fydd, gobeithio, yn ystyried rôl llywodraethwyr fel arweinwyr ysgol ymhellach.

Cafodd JG gyfarfod gyda TE a Mark Isherwood yn ddiweddar i drafod cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr. Byddai JG yn awyddus i gael barn llywodraethwyr am hyn hefyd. Gwnaeth JG sylwadau hefyd ar gofnodion cyfarfod diwethaf y grŵp rhanddeiliaid a oedd yn pwysleisio'r angen am waith ychwanegol yn y sector ÔI-16.

Roedd yr holl gynnydd sy'n cael ei gyflawni ar draws pob maes gwaith allweddol wedi creu argraff ar YI. Gwnaeth sylwadau ar y drafodaeth gynharach ynghylch symud o ymwybyddiaeth i ddealltwriaeth gan dynnu sylw at werth edrych ar

lywodraethu addysgol mewn ystyr ehangach i roi barn fwy cytbwys. Holodd YI hefyd sut mae'r sefydliad yn ceisio datblygu arloesi digidol.

Cyfeiriodd TE at ddigwyddiad arloesi digidol diweddar nad aeth llawer iddo yn anffodus. Efallai mai'r rheswm am hyn yw ei fod wedi'i drefnu gan Apple, nad yw rhai ysgolion yn ei ddefnyddio. Mewn ymateb i sylwadau YI ar wrth-hiliaeth a chydaddoldeb ac amrywiaeth, roedd TE yn teimlo bod gan y sefydliad lawer i'w ddysgu yma a bod angen dyfeisio rhaglen hyfforddi ar gyfer y grŵp. Cynigiodd YI fod TE yn cysylltu â'r Grŵp Arweinyddiaeth Du a allai gynorthwyo gyda hyn.

Tynnodd MP sylw at y cynnydd mewn addysg yn y cartref yn sgil Covid. Mae hyn yn broblem gynyddol gan nad yw addysgwyr cartref wedi'u cofrestru ac nad ydynt yn cael eu harolygu.

Diolchodd SD i TE am adroddiad hynod addysgiadol sy'n tynnu sylw at yr holl faterion allweddol ac ysbrydoli sgysiau defnyddiol.

5. Hyfforddiant i Aelodau'r Bwrdd

Mae SD wedi bod yn gweithio gyda KP i lunio cynllun hyfforddi ar gyfer aelodau newydd a phresennol y Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys gwrth-hiliaeth, diwygio ADY, yr haen ganol a phartneriaethau.

Bydd KP mewn cysylltiad â phawb pan fydd dyddiadau wedi'u cadarnhau.

6. Gwasanaeth Archwilio Allanol

Mae hyn wedi'i drafod ym Mharagraff 3 uchod.

7. Diweddariad ar Gymdeithion

Rhoddodd SC gyflwyniad ar ei rôl fel Cydymaith yng Ngharfan 2. Dechreuodd SC drwy gyflwyno'i chefnidir a'i phrofiad proffesiynol fel Pennaeth yng Nghaerdydd, cyn amlinellu briff y comisiwn ar gyfer Carfan 2 ar 'Rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus'.

O ganlyniad i'r gwaith ar y comisiwn hwn mae Carfan 2 wedi cael y dasg o weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru wrth droi newid yn bolisi. Mae hwn yn faes enfawr sydd wedi effeithio ac a fydd yn effeithio ar ysgolion yn fuan iawn, ac roedd SC yn falch iawn o weld y byddai Cymdeithion yn cael y fath ddylanwad.

Mae SC wedi cael cais i ymuno â'r tasglu i ddatblygu prosiect ysgol iaith ddeuol a fyddai'n arwain at ysgol 50% cyfrwng Cymraeg a 50% dwyieithog sy'n fodol newydd i Gaerdydd. Y bwriad yw sefydlu cwpwl o ysgolion lloeren fel hyn er mwyn gweithio tuag at gyrraedd y nod uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Holodd MP pam mae Llywodraeth Cymru mor barod i dderbyn syniadau a gyflwynwyd gan y Cymdeithion. Roedd SC yn credu mai enw da'r Academi sy'n

gyfrifol am hyn, canlyniadau gwaith ymchwil a hefyd y cyfarfodydd helaeth i gyflwyno'r manteision. Roedd y targedau'n ysbrydoledig ond hefyd yn gyraeddadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Soniodd SC hefyd am ei chyfraniad ychwanegol yn darparu cymorth arweinyddiaeth i ysgol oedd mewn mesurau arbennig. Roedd dyfodol yr ysgol fach hon dan amheuaeth, ond bu SC yn helpu'r Pennaeth i adfywio'r ysgol a gwneud cais am gyllid. Trodd hyn yn drefniant neu'n bartneriaeth anffurfiol rhwng y ddwy ysgol a thîm arwain newydd. Mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i gadw'r ysgol fach ar agor a'r gobaith yw cynyddu'r lleoedd yno.

Mae cais yn cael ei wneud i'r gronfa arloesi ar gyfer ymchwil i strwythurau ysgol newydd a'r camau cydweithio allai gynnig manteision i ysgolion gwledig llai.

Fe wnaeth profiadau SC sbarduno trafodaeth ddiddorol am raddfa a strwythur a sut mae hyn yn effeithio ar arweinyddiaeth. Roedd MJ yn frwd iawn am y syniad o gydweithio fel modd o greu meta-strwythur a rhwydwaith o wasanaethau addysgol. Pwysleisiodd fod y berthynas rhwng strwythur a strategaeth yn sylfaenol wrth wneud i ysgolion berfformio'n effeithiol. Roedd SC yn cytuno â hyn, ac yn credu y gallai greu model gwahanol arbed rhai ysgolion gwledig rhag cau. Cydnabuwyd y gallai croesi ffiniau sirol gymhlethu materion yma fodd bynnag.

Tynnodd SC sylw at y ffaith y gallai arweinwyr ysgolion newydd sy'n dod drwodd deimlo'n ynysig iawn, a bod gwir angen am ddysgu proffesiynol ystyrlon. Roedd SC yn falch iawn o weld bod yr Hawl Dysgu Proffesiynol yn cynnig llwybr clir i bawb bellach.

Roedd SC wedi mynychu digwyddiad Global Leadership yn Singapore lle clywodd rai siaradwyr ysbrydoledig iawn. Soniodd am y model addysgol yn Singapore a arferai ganolbwyntio'n llwyr ar ganlyniadau academaidd, ond a oedd bellach yn symud i ganolbwyntio ar y plentyn cyfan yn ehangach.

Hefyd, dywedodd SC pa mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant coetsio a gafodd yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo. Bu'n gweithio gyda'r darparwr hyfforddiant i ddatblygu rhaglen ar gyfer cynghorwyr herio. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i gyflwyno i bob partner gwella ledled Cymru.

Diolchodd SD i SC am sgwrs ddiddorol iawn ac roedd yn falch iawn o glywed sut roedd gwaith Cymdeithion yn gwneud cymaint o wahaniaeth.

Gofynnodd DN sut mae'r sefydliad yn hyrwyddo'r holl waith ardderchog hwn. Dywedodd TE wrth y cyfarfod fod Charlotte Thomas yn gwneud ffilm o gyflawniadau'r Cymdeithion a bod y Cymdeithion yn cynhyrchu blogiau o'u straeon llwyddiant unigol hefyd.

Diolchodd SC i'r Academi am yr holl gymorth a'r gefnogaeth a gafodd yn ei rôl fel Cydymaith. Anogodd SD hi i barhau i feithrin y cysylltiad wrth symud ymlaen fel alumni.

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw. Cydnabuwyd bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gyfle llawer gwell ar gyfer sgysiau manwl am faterion.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddydd Gwener 30 Medi am 10 y bore. Cyfarfod ar-lein fydd hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.05pm.

Cofnod Gweithredu

Rhif		Perchennog	Terfyn amser	Statws
188	Ystyried cydweithio ar faterion llesiant	NM	Parhaus	
205	Gwirfoddolwr i fod yn brif gyfarwyddwr ar ffrydiau gwaith	Pob cyfarwyddwr	Medi 2022	
208	Trefnu arfarniadau ar gyfer mis Medi/Hydref	KP	Medi 2022	
209	Amlygu unrhyw beth sy'n berthnasol o adroddiad monitro gwleidyddol	MP	Parhaus	
210	Gwahodd CL i gyfarfod Bwrdd y dyfodol	KP	Medi 2022	
211	Hysbysu aelodau'r Bwrdd am raglen hyfforddi	KP	Medi 2022	